55. The cumulative impact of the financial disadvantage experienced by women risks resulting in many falling into poverty in the short term, and widening the gender pay gap in the longer term. The Welsh Government must consider the specific economic impacts of the pandemic on women, including younger, disabled and ethnic minority women, particularly those who are low-paid, and where necessary, target support to sectors that have been disproportionately impacted.
56. We also urge the Welsh Government to undertake analysis on the number of employees made redundant disaggregated by protected characteristic, full-time and part-time status, occupation, and industry as part of its wider assessment of the impact of coronavirus and work with the Commission, trade unions and business representative groups to find ways to mitigate any disproportionate impact on different protected groups.
57. It is important for the Welsh Government to take action to protect women from discrimination, particularly given its binding obligations under CEDAW to eliminate discrimination against women in the field of in the field of employment, including on the grounds of pregnancy and maternity.
58. Our 2015 pregnancy and maternity discrimination research also revealed that a quarter of employers believe it is acceptable to ask questions about a woman's plans to have children at interview.³⁶ This potentially places women at further disadvantage in a competitive job market.

³⁶ BEIS and EHRC (2015) [Pregnancy and maternity related discrimination: summary of findings](#)

59. As noted above, the Commission is very concerned about the longer term availability of childcare for working parents, and the impact this has on women's participation in the job market. The unequal division of unpaid caring responsibilities was also identified as major concern

60. Fathers increasingly want to play a greater and more active role in bringing up their children, but current parental leave offers are failing to meet this demand because of the complexity of the Shared Parental Leave scheme, ineligibility, low financial incentive, and concerns about employer attitudes.

61. These barriers to parental leave for fathers reinforce gendered assumptions about caring responsibilities, and result in a disproportionate burden of childcare and other unpaid work on mothers. At the last UK census³⁷, women were also notably more likely to be unpaid carers than men, which can also have a lasting impact through women's careers and contribute to the gender pay gap³⁸.

62. Social distancing measures have required many employers to implement flexible working practices in order to survive. [ONS data](#) shows that in the period 14-17 May a third worked from home only, with another eight per cent working from home and travelling to work. This has demonstrated that it is possible, and beneficial to both employers and employees.

63. We hope to see this practice continue in the long term as flexible working enables many people to participate in the labour market, particularly those

³⁷ Office for National Statistics (2011), [Census 2011](#)

³⁸ EHRC (2018), [Fair opportunities for all: a strategy to reduce pay gaps](#)

with caring responsibilities³⁹ and disabled people⁴⁰, leading to greater efficiency, reducing stress and increasing employees' motivation and commitment. Flexible working options for fathers would also help to increase their participation in early years' childcare, and, as with improvements to parental leave, support more balanced gender roles.

64. Recent reports indicate that many employees are worried their employer will revert to previous inflexible working practices⁴¹. We believe that this would be regressive and that both government and employers need to recognise that flexible working during the pandemic has shown that it is possible to retain productivity and contribute to the economy, while reducing strain on public services and improving people's family life.

The impact of high-quality formal childcare provision on reducing the attainment gap, and the potential benefits of extending childcare provision to tackle inequalities.

³⁹ Working Families (2019), [2019 Modern Families Index](#) Nearly three in five parents (58%) reported having a flexible and family-friendly employer would make them more likely to stay. Over half (55%) said it would make them more motivated and productive.

⁴⁰ Leonard Cheshire (2019), [Disabled workers are being failed by employers](#)

⁴¹ TUC (2019), [One in three flexible working requests turned down, TUC poll reveals](#)

65. Our human rights tracker⁴² highlighted that the Welsh Government funded childcare for an average of over 13,500 children per month before the pandemic. Access to childcare remains a barrier to employment in Wales – support should be tailored to parents’ needs, including by expanding the offer to children under three.

66. It is still commonplace for women to bear the majority of domestic work and caring responsibilities, a contribution that is often unseen, undervalued and, in some cases, increasing. ONS estimates the value of unpaid childcare at £132.4bn, 69% of which is accounted for by women. The estimated value of unpaid adult care is £7.97bn, with 59% accounted for by women. This can have major implications for the living standards and mental and physical health of carers.

67. A study by the University of Manchester showed that around 85 carers a year died by suicide in the UK between 2011 and 2015, around half of whom were female. The high cost of childcare can be prohibitive. New analysis by the Trades Union Congress (TUC) revealed that while real wages fell in England between 2008 and 2016, childcare costs rose by 48% over the same period⁴³. The UK and Welsh governments have extended their free childcare, though the availability and implementation of this is different in each country. We have previously highlighted that childcare provision in Wales is patchy⁴⁴.

⁴² <https://humanrightstracker.com/en/progress-assessment/access-to-employment-welsh-government-assessment/>

⁴³ <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/pressing-for-progress-womens-rights-and-gender-equality-in-2018-pdf.pdf>

⁴⁴ See: <https://www.equalityhumanrights.com/en/file/18736/download?token=VJ6vr2ia> [accessed: 20 May 2018].

68. The Welsh Government introduced the Childcare Offer for Wales in 2017 to provide up to 30 hours of formal childcare for children aged three or four⁴⁵, but this does not go far enough to meet the needs of parents.

69. The UK and Welsh governments, where applicable, should⁴⁶ ensure the availability and affordability of properly regulated childcare, including by ensuring adequately funded, flexible and high-quality childcare for all children, tackling problems with funding and availability of the provision for 30 hours of free childcare for children aged three to four years, and addressing the funding gap for children between the ages of nine months and three years.

- a. introduce dedicated, non-transferable and flexible ‘use it or lose it’ shared parental leave for parents, with a pay rate that acts as a real incentive to take-up.
- b. make paternity and shared parental leave a ‘day one’ right for employees, and include equivalent provisions for agency and self-employed workers to ensure they can access paid shared parental leave at the same rate as employees.

70. Encouraging parents to share childcare responsibilities more equally would reduce the impact on women’s careers and pay, and ensure fathers have the opportunity to involve themselves more in day-to-day child rearing. In principle, paternity pay and the introduction of shared parental leave means this is possible.

⁴⁵ Welsh Government, ‘The Childcare Offer for Wales: Help with childcare costs for working parents of 3 to 4 year olds’ [accessed: 10 September 2020].

⁴⁶

https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/childrens_rights_in_great_britain_executive_summary_0.pdf

71. A survey of parents and businesses suggested, however, that just 1% of men had taken up shared parental leave, and that parents considered their relative earning potential and the financial impact when deciding who should care for their children. Statutory maternity and paternity pay is much lower than the National Minimum Wage (NMW) or National Living Wage (NLW), and pay for fathers is lower than that for mothers. In addition, flexible working rights are restricted to employees with over 26 weeks' service.

72. Two factors seem to encourage men's involvement in childcare and reduce the impact on women's careers of being the sole carer: more generous paternity leave, and more affordable childcare. Evidence has shown that countries with effective paternity leave policies are often those that offer well-paid, flexible but non-transferable policies.

73. We have called on the Welsh Government to review the Gender Equality Roadmap to respond to women's experiences of work during the Coronavirus pandemic and in recovery. We also called for the Welsh Government to address the problems with the availability and affordability of properly regulated childcare, including by ensuring adequately funded, flexible and high-quality childcare for all children, and monitor the impact different models of provision have on women's labour market participation, and encourage men and women to share caring responsibilities on an equal basis⁴⁷.

⁴⁷ <https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/pressing-for-progress-womens-rights-and-gender-equality-in-2018-pdf.pdf>

Other sources of evidence the Committee may wish to consider

Human Rights Tracker

74. Our [human rights tracker](#) is one of the world's first online tools for monitoring human rights compliance. It is a searchable online tool to track how well the Welsh and UK Governments are putting its human rights duties into practice and contains all of the most recent recommendations made to the UK by the UN treaty bodies and the Universal Periodic Review (UPR). We want the human rights tracker to raise awareness of the UK's human rights duties, to help you monitor how well they are being put into practice, and to support you in holding government to account.

75. You can use the tracker to:

- Review the progress the Welsh & UK governments have made towards fulfilling their international human rights obligations.
- Search by [UK](#) and [Wales](#) so you can see which government is responsible for implementing the recommendations.
- Find out what the UN has said about a particular human rights issue (such as education, living standards or work) or population group (such as disabled people or children) in the UK.
- Find dedicated pages on each of the UN human rights treaties the UK has agreed to follow, and on the UPR process.

Is Wales Fairer?

76. [Is Wales Fairer?](#) is the most comprehensive review of how Wales is performing on equality and human rights across all areas of life, including; education, work, living standards, health, justice and security and participation in society.
77. This is the Welsh supplement to our report on equality and human rights progress in England, Scotland and Wales, [Is Britain Fairer?](#)
78. We have also recently produced a follow-up “[How Coronavirus has affected equality and human rights](#)” report which summarises evidence to help us understand the effects of the coronavirus (COVID-19) pandemic on different groups in society.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – ymateb ysgrifenedig i ymchwiliad y Pwyllgor gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Gofal plant a chyflogaeth rhieni: y pandemig a thu hwnt

Y cefndir

1. Mae rhieni yn cyfeirio'n aml at broblem cael gafael ar ofal plant fforddiadwy a hyblyg, yn enwedig mamau, fel un o'r prif rwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio, neu symud ymlaen ymhellach yn eu gyrfa. Mae'r sector gofal plant a reoleiddir yng Nghymru yn cwmpasu ystod eang o ddarpariaeth, sy'n cynnwys gwarchod plant a gofal dydd¹, a cheir darparwyr o bob rhan o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector.
2. Bwriad y model cymysg hwn yw sicrhau bod dewis a hyblygrwydd i rieni yn y math o ofal y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer eu plant. Fodd bynnag, mae model sy'n ymateb i'r farchnad yn golygu bod darpariaeth gofal plant gofrestredig yn tueddu i gael ei chanfod mewn ardaloedd lle mae'r galw yn uwch, am fod y boblogaeth yn uwch a bod yna fwy o gyfoeth.² Yn hanesyddol, mae safleoedd gofal plant (yn enwedig safleoedd gofal dydd llawn) hefyd yn tueddu i gael eu clystyru ar hyd llwybrau cymudo. Yn aml, gall hyn olygu bod llai o ddewis i rieni mewn ardaloedd gwledig ac mewn rhannau llai cyfoethog o Gymru, a gall y teuluoedd yn yr ardaloedd hyn orfod teithio ymhellach i gael gofal plant. Mae'r ffordd rydym yn mynd i'r afael â'r materion hyn o ran dosbarthiad a thegwch darpariaeth yn allweddol wrth inni geisio sicrhau gofal plant hwylus a fforddiadwy i bob riant.

Lefelau presennol y ddarpariaeth ac effaith y pandemig

3. Mae 3,336 o safleoedd gofal plant a chwarae wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, gan ddarparu dros 76,000 o leoedd i blant 0-12 oed. Mae hyn yn ostyngiad o 8 y cant yn nifer y safleoedd, a 3 y cant o'r capasiti, o'i gymharu â lefelau cyn Mawrth 2020, ac er bod hyn yn awgrymu bod y sector yn gyffredinol wedi ymdopi â'r pandemig yn weddol dda, mae heriau yn parhau o hyd mewn rhannau o'r sector.

	Safleoedd	Lleoedd
Gofal Dydd Llawn	995	38,715
Gofal Dydd Sesiynol	455	10,302
Gofal y Tu Allan i'r Ysgol	350	13,715
Darpariaeth Chwarae Mynediad Agored	14	1,051

¹ Diffinnir gwarchod plant fel gofal a ddarperir gan un neu fwy o bobl ar gyfer plant rhwng 0 a 12 oed mewn safleoedd domestig nad ydynt yn gartref i'r plentyn ei hun, am fwy na 2 awr y dydd am dâl neu wobwr. Diffinnir gofal dydd fel gofal ar gyfer plant rhwng 0 a 12 oed a ddarperir ar safle annomestig ac mae'n cynnwys meithrinfeydd dydd, gofal plant y tu allan i'r ysgol, grwpiau chwarae, crèches a chwarae mynediad agored.

² Llywodraeth Cymru (2017) [Capasiti Gofal Plant yng Nghymru: mapio'r ddarpariaeth gofal plant yn erbyn y galw posibl amdano](#)

Crèches	13	309
Gwarchodwyr plant	1,509	12,191
Cyfanswm safleoedd gofal dydd	1,827	64,092
Cyfanswm yr holl safleoedd	3,336	76,283

Ffynhonnell: Cofrestr Arolygiaeth Gofal Cymru ar 8/11/2021³

4. Mae rhai safleoedd yn nodi bod llai o blant yn mynychu a newidiadau i batrymau defnydd pobl o gymharu â'r cyfnod cyn Covid-19, gan arwain at ostyngiad cyffredinol yn y galw. Mae llawer o ddarparwyr gofal y tu allan i'r ysgol, er enghraifft, wedi methu â gweithredu o ganlyniad i faterion yn ymwneud â chael mynediad i safleoedd, pryderon ynghylch cymysgu ar draws swigod ysgol a lefelau isel o alw ymhlith rhieni sy'n gweithio gartref.
5. Creodd y pandemig hefyd alw newydd am ofal plant ffurfiol. Mae'r cyfyngiadau ar gyswllt ag aelwydydd eraill dros y flwyddyn ddiwethaf wedi arwain rhai teuluoedd i ddefnyddio gofal plant ffurfiol (yn hytrach na theulu neu ffrindiau) am y tro cyntaf, fel y gwelwyd yn glir yn y nifer a fanteisiodd ar y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws a gynigiwyd rhwng Ebrill ac Awst 2020⁴. Dywedodd un o bob pump o'r rhieni a holwyd nad oeddent yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn y Cynllun Cymorth. Nid ydym eto wedi gweld beth y bydd hyn yn ei olygu o ran y galw a'r defnydd o ddarpariaeth gofal plant gofrestredig wrth inni symud ymlaen. Dywedodd 96 y cant o'r rhieni a holwyd fel rhan o'r gwerthusiad o'r Cynllun Cymorth ei fod wedi ei gwneud yn haws iddynt weithio, nododd 73 y cant ei fod wedi eu galluogi i weithio mwy o oriau a dywedodd 71 y cant eu bod wedi gallu gweithio oriau mwy hyblyg o ganlyniad i'r cynllun.
6. Darparwyd amrywiaeth o gefnogaeth i'r sector ar ddechrau'r pandemig, ac rydym wedi parhau i wneud hynny wrth i'r sefyllfa sefydlogi ac i safleoedd allu cynyddu eu gweithgarwch. Ceir manylion y cyllid a ddarparwyd yn yr Atodiad, ynghyd â doler i'r canllawiau diweddaraf.

Cefnogi teuluoedd sy'n gweithio

7. Er gwaethaf y cynnydd a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf o ran sicrhau mwy o gydraddoldeb rhwng rhieni, mae gofal plant yn parhau i gael ei ystyried a'i gyflwyno fel mater i famau. Mae hyn yn rhywbeth a welwyd i raddau mwy dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a nifer o adroddiadau yn nodi'r effaith anghymesur a gafodd y pandemig ar fenywod ac ar famau sy'n gweithio⁵. Mae llawer o'r

³ Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwasanaethau a ataliwyd gan y gallent fod ar gau am gyfnod amhenodol. Maent yn cynnwys tua 150 o safleoedd sydd wedi hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru eu bod ar gau dros dro oherwydd COVID-19, gan gynnwys oherwydd achosion o'r feirws, prinder staff, neu ddiffyg galw.

⁴ Llywodraeth Cymru (2021) [Gwerthusiad o Gynllun Cymorth Gofal Plant y Coronafeirws](#)

⁵ Andrew, A., Cattan, S., Costa Dias, M., Farquharson, C., Kraftman, L., Krutikova, S., Phimister, A. a Sevilla, A. (2020). The Gendered Division of Paid and Domestic Work under Lockdown. Bonn, (2365-9793). Ar gael drwy: <https://covid19.iza.org/publications/dp13500/>.

adroddiadau hyn⁶ yn cyfeirio at effeithiau penodol y cyfyngiadau ar weithgarwch ysgolion a mynediad at ofal plant, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, a'r pwysau dilynol yn sgil addysgu gartref a gofal plant yn syrthio ar fenywod i raddau helaeth. Hyd yn oed mewn aelwydydd dau riant, lle roedd y ddau riant yn gweithio, ysgwyddodd menywod fwy o'r cyfrifoldebau gofal plant. Mae yna dystiolaeth y gallai anghydbwysedd rhwng y rhywiau fod wedi cynyddu ymhlith rhieni, ac mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod hyn yn creu risg fwy o anawsterau iechyd meddwl i fenywod ac o golli enillion⁷.

8. Mae hyn er gwaethaf cynnydd yn yr absenoldeb tadolaeth â thâl a gynigir, hawliau rhieni i rannu cyfnod absenoldeb o'r gwaith, a hawl pob rhiant, gan gynnwys dynion, i ofyn am batrymau gweithio hyblyg. Beth bynnag, mae'r pandemig, mewn sawl ffordd, wedi atgyfnerthu stereoteipiau rhyw traddodiadol ac wedi cynyddu'r rhwystrau y mae menywod yn eu hwynebu, naill ai wrth weithio neu ddychwelyd i'r gweithle. Wrth i bobl ddychwelyd i weithleoedd ffurfiol yn y dyfodol, mae pryderon hefyd y bydd colli'r hyblygrwydd a gynigir drwy weithio gartref yn effeithio ymhellach ar opsiynau gyrfa i rai menywod. Mewn gwledydd eraill, dangoswyd bod darpariaeth gofal plant ffurfiol yn adnodd effeithiol i ysgogi cyplau sy'n ennill dau gyflog i gael plant⁸. Mae darpariaeth gofal plant hefyd yn cyfrannu'n fawr iawn at foddhad bywyd mamau a'u lles⁹.
9. Er y gofynnwyd i safleoedd gofal plant gyfyngu eu gwasanaethau i blant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed ar ddechrau'r pandemig, gyda help y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws, symudwyd yn gyflym i ehangu'r mynediad pan oedd yn ddiogel gwneud hynny. Mae safleoedd gofal plant wedi gallu cynnig eu gwasanaethau i bob teulu ers Mehefin 2020, ac er bod nifer o fesurau cysylltiedig â Covid ar waith i ddechrau, a oedd yn golygu parhau â rhai cyfyngiadau ar eu gweithgarwch, rydym wedi gallu lleihau'r rhain wrth i'r amgylchiadau wella o ran iechyd cyhoeddus ehangach.
10. Yn wahanol i ysgolion, nid oedd unrhyw gyfyngiadau ar weithredu safleoedd gofal plant tra roeddem ar Lefel Rhybudd 4, gan adlewyrchu'r risgiau llai i blant a chan blant yn eu blynyddoedd cynnar yn benodol, a'r angen i gefnogi rôl hanfodol y safleoedd hyn o ran datblygiad plant. Yn gyffredinol, mae cyfraddau heintio yn parhau'n isel mewn plant ifanc iawn, ac mae'r achosion mewn safleoedd gofal plant hefyd yn is nag mewn sectorau eraill. Roedd y dystiolaeth hon, ynghyd â'r manteision i blant a'r effeithiau anghymesur ar rieni sy'n gweithio, yn enwedig mamau, yn llywio ein ffordd o feddwl ac ymateb. Yn dilyn cyfnod byr o aros, roeddem hefyd yn gallu [ailgychwyn y Cynnig Gofal Plant](#) ym mis Medi 2020, gan lacio'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer rhieni yr effeithiwyd ar eu hincwm dros dro gan Covid-19.

⁶ EPPI, Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol Coleg Prifysgol Llundain (2021) [Mitigating impacts of the COVID-19 pandemic on parents and carers during school closures: A Rapid Evidence Review](#)

⁷ Xue, B. a McMunn, A. (2021). Gender differences in unpaid care work and psychological distress in the UK Covid-19 lockdown. *PLoS One*, 16(3), e0247959.

⁸ WOOD, J.; NEELS, K. Local Childcare Availability and Dual-Earner Fertility: Variation in Childcare Coverage and Birth Hazards Over Place and Time. *European Journal of Population*, cyfrol 35, rhif 5, t. 913–937, 2019

⁹ SCHMITZ, S. The Impact of Publicly Funded Childcare on Parental Well-Being: Evidence from Cut-Off Rules. *European Journal of Population*, cyfrol 36, rhif 2, t. 171–196, 2020

Y Cynnig Gofal Plant

11. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn adeiladu ar y ddarpariaeth ar gyfer addysg y Cyfnod Sylfaen i blant 3 a 4 oed mewn safleoedd gofal plant. Mae gofyn i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf 10 awr yr wythnos, er bod llawer yn cynnig mwy. Rydym wedi cyhoeddi [cyngor](#) i awdurdodau lleol i'w helpu i ddeall y rhwystrau i ddarparwyr o ran bod yn hyblyg, a dod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn ymateb i ddymuniadau rhieni.
12. Cyflwynwyd y Cynnig yn wreiddiol fel mesur i gefnogi rhieni sy'n gweithio gyda chostau gofal plant. Cynhwyswyd elfennau ohono yn benodol i ddarparu'r cymorth ehangaf posibl. Mae'r oriau gofal plant a ariennir yn hyblyg, a gall rhieni eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r dydd, neu ar unrhyw ddiwrnod o'r wythnos. Nid oes terfyn uchaf chwaith ar y nifer y gellir ei ddefnyddio mewn diwrnod, gan fod angen sesiynau hirach ar gyfer rhieni sy'n gweithio shifftiau weithiau.
13. Cynhaliwyd gwerthusiadau blynyddol o'r Cynnig ers i'r cynlluniau peilot cychwynnol ddechrau yn 2016, ac yn gyffredinol adroddwyd bod y Cynnig yn helpu rhieni gyda'u cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac â chyllid teuluol. Mae gwerthuswyr annibynnol wedi dangos bod y Cynnig wedi bod yn fwy tebygol o effeithio ar allu menywod i weithio mwy o oriau¹⁰¹¹. Roedd y gwerthusiad diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021¹², yn gyfyngedig o ran cwmpas o ganlyniad i'r pandemig, ond nodwyd y canlynol:
 - dywedodd dros 40 y cant o rieni fod y Cynnig wedi gwella eu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a dysgu a datblygu ym myd gwaith, a'u bod yn defnyddio mwy o ofal plant ffurfiol yn sgil y Cynnig;
 - dywedodd mwy na hanner fod y Cynnig wedi cynyddu eu hyblygrwydd yn y ffordd yr oeddent yn gweithio, ac roedd 13 y cant wedi cynyddu'r oriau yr oeddent yn gweithio;
 - dywedodd 50 y cant arall fod y Cynnig wedi rhoi'r potensial iddynt gynyddu eu henillion.
14. Canfu'r gwerthusiad hefyd mai rhieni sy'n dod o fewn y grwpiau incwm canolig i isel a fanteisiodd yn bennaf ar y Cynnig:
 - roedd o leiaf 58 y cant o'r rhieni a oedd yn defnyddio'r Cynnig yn ennill llai na'r lefel cyflog blynyddol gyfartalog genedlaethol ar gyfer gweithwyr llawn amser;
 - roedd ychydig dros chwarter (29 y cant) o rieni yn ennill llai na £15,600, a dim ond lleiafrif (5 y cant) oedd yn ennill £52,000 neu'n fwy.
15. Mae canfyddiadau gwerthusiad blwyddyn pedwar ar fin cael eu cyhoeddi, ac rydym yn hyderus y bydd y rhain unwaith eto yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r Cynnig yn ei chael ar gyflogadwyedd rhieni.

¹⁰ [Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 2](#)

¹¹ [Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru](#)

¹² [Gwerthuso'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 3](#)

16. Fodd bynnag, mae'n bwysig ein bod yn cofio'r plentyn a'i anghenion bob amser. Dyna pam y cyfyngir y ddarpariaeth i safleoedd cofrestredig sy'n cael eu harolygu, lle mae gennym hyder yn ansawdd y gofal a bod mesurau diogelu priodol ar waith. Rydym yn sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol fel eu bod yn gallu manteisio ar ofal plant ar sail gyfartal a chael cymorth sydd wedi'i deilwra i'w gofynion. Gall y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd hefyd gynnig cyngor ac arweiniad i rieni ar sut i fanteisio ar y Cynnig, y ddarpariaeth gofal plant orau yn yr ardal ar gyfer eu hanghenion, a gwasanaethau cymorth eraill y gallai fod eu hangen ar y teulu neu y maent am eu cael.

17. Roedd tua 16,800 o blant yn manteisio ar y Cynnig Gofal Plant ym mis Gorffennaf eleni. Dyma'r nifer uchaf o bobl ers i'r Cynnig ddechrau ac amcangyfrifir bod hyn yn 48 y cant o'r boblogaeth gymwys. Fodd bynnag, mae'r niferoedd yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Rydym yn gweld lefelau cyson uwch o bobl yn manteisio ar draws y Gogledd ac yn y dinasoedd mwy nag ar draws Cymoedd y De. Daeth y gwaith ymchwil a wnaed i'r patrymau amrywiol hyn i'r casgliad bod llawer o faterion yn cyfrannu at hyn, gan gynnwys:

- Diffyg ymwybyddiaeth o'r Cynnig ymhlith rhai, neu sut i wneud cais amdano;
- Anallu i ddangos tystiolaeth sy'n bodloni'r gofynion o ran cyflogaeth (oherwydd oriau gwaith anghyson, neu am nad oedd gan rieni slipiau cyflog am eu bod yn hunangyflogedig);
- Pryderon ynghylch yr effaith ar hawliau i gael budd-daliadau eraill;
- Diffyg gofal plant mewn ardaloedd gwledig, neu ddiffyg gofal plant sy'n gallu gweithio o amgylch patrymau gwaith rhieni;
- Diffyg gofal plant digonol ar gael yn eu dewis iaith;
- Bod yn well gan rieni ddefnyddio gofal plant anffurfiol o fewn y teulu.¹³

18. Bydd y materion hyn i gyd yn bwydo i mewn i asesiadau awdurdodau lleol o ddigonolrwydd gofal plant, y mae'n ofynnol iddynt edrych yn benodol ar ddigonolrwydd gofal i rieni sy'n gweithio a rhieni sy'n chwilio am gyfleoedd gwaith neu hyfforddiant. Maent hefyd yn faterion sydd wedi llywio ein gweledigaeth ar gyfer system Addysg a Gofal Plentynod Cynnar gynhwysfawr, a [lansiwyd](#) yn 2019.

Addysg a Gofal Plentynod Cynnar (ECEC) – Ehangu'r Ddarpariaeth

19. Mae ein gweledigaeth ar gyfer Addysg a Gofal Plentynod Cynnar (ECEC) yn canolbwyntio ar yr egwyddor y dylai pob plentyn gael profiad dysgu a gofal o ansawdd uchel sy'n eu hysgogi mewn unrhyw safle addysg a gofal y maent yn ei fynychu. Rydym am sicrhau system yng Nghymru a fydd yn adlewyrchu ein huchelgais am gymdeithas fwy cyfartal, fel a ganlyn:

- dylai datblygiad plant fod wrth wraidd ein dull gweithredu, a'n hegwyddorion ar gyfer ECEC;

¹³ [Hughes, Buddug a Jones, Kathryn \(2021\) Credoau rhieni, eu hymddygiadau a'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu: gofal plant ac addysg gynnar](#)

- effaith tlodi ar gyfleoedd bywyd plant ddylai fod yn egwyddor arweiniol inni wrth ystyried blaenoriaethau, ac yn arbennig sut i dorri'r cylch tlodi; a
- dylem adeiladu system gofal plant i Gymru yn seiliedig ar egwyddor cydraddoldeb cyfleoedd cynyddol i bawb, gan ehangu'r ddarpariaeth â chymhorthdal yn raddol.

20. Mae anfantais o ran datblygiad yn amlygu ei hun cyn bod plentyn yn dair oed, ac erbyn iddynt ddechrau yn yr ysgol mae plant o'r teuluoedd incwm isaf, ar gyfartaledd, 16 mis y tu ôl i'r rhai o deuluoedd incwm uwch. Mae'r bwlch cyrhaeddiad hwn yn cynyddu dros amser, a'r effeithiau cymdeithasol, emosiynol ac economaidd yn para oes. Mae angen buddsoddi mewn ystod eang o gymorth ar draws y blynyddoedd cynnar i fynd i'r afael â'r bylchau hyn a chefnogi'r broses o drosglwyddo i addysg ffurfiol. Rydym wedi deall hyn ers tro, a dyna pam yr ydym wedi canolbwyntio'n helaeth ar gefnogi plant a'u teuluoedd yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru drwy ein rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'r rhaglen wedi cefnogi teuluoedd yn gyson drwy amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys ymweliadau iechyd gwell, gofal i blant 2 flwydd oed, rhianta a chymorth lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae dadansoddiad cynnar o un ardal awdurdod lleol yn awgrymu bod y plant hynny sy'n mynychu gofal plant Dechrau'n Deg yn fwy aml yn tueddu i gyflawni eu canlyniadau disgwylidig ym mhob maes dysgu yn amlach na'r rhai a oedd yn mynychu'n llai aml¹⁴. Mae ein rhaglen Adnewyddu a Diwygio hefyd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad. Mae'n cynnwys elfen benodol ar y blynyddoedd cynnar, gydag £13m o gyllid ychwanegol i gefnogi'r ddarpariaeth mewn ysgolion a safleoedd gofal plant yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
21. Roedd y cyfyngiadau a gyflwynwyd yn sgil pandemig y coronafeirws yn golygu na wnaeth rhai asesiadau wyneb yn wyneb o ddatblygiad hwyrach heb eu nodi. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, sefydlwyd Cronfa Datblygu Plant dros dro, a hyd yma mae wedi darparu £11.5m i awdurdodau lleol rhwng Hydref 2020 a Mawrth 2022. Mae'r gronfa yn targedu gwasanaethau a chymorth i blant dan bum mlwydd oed, er mwyn sicrhau bod anghenion datblygiadol yn cael eu nodi cyn gynted â phosibl cyn iddynt waethgu i lefel ddifrifol. Yn ogystal â'r Gronfa Datblygu Plant, mae £7 miliwn o gyllid ychwanegol hefyd wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol (drwy'r Grant Plant a Chymunedau) i helpu i leddfu'r pwysau ar wasanaethau cymorth cynnar hanfodol i gefnogi plant, pobl ifanc a rhieni mewn ymateb i'r pandemig, a lleihau amseroedd aros amdanynt.
22. Rydym wedi edrych ar dystiolaeth o bob cwr o'r byd i helpu i ddatblygu ein gweledigaeth ar gyfer ECEC, gan ddefnyddio modelau Sgandinafia sy'n un o'r ardaloedd â'r ddarpariaeth fwyaf hael yn y byd lle mae pob plentyn yn cael addysg a gofal cynnar â chymhorthdal. Yn llawer o wledydd Sgandinafia, mae hyn yn seiliedig ar hawl gyfreithiol plentyn i gael darpariaeth addysg a gofal cynnar. Rydym hefyd yn edrych ar arferion o fewn y DU, er enghraifft yr Alban sydd wedi cynyddu eu darpariaeth gofal plant a ariennir i bron i chwarter o blant 2 flwydd oed, yn ogystal â phob plentyn 3 a 4 oed. Fodd bynnag, er mwyn symud

¹⁴ [Dadansoddiad o ganlyniadau Dechrau'n Deg gan ddefnyddio data sydd wedi'u cysylltu: gofal plant ac asesiadau sylfaenol y Cyfnod Sylfaen | GOV. CYMRU](#)

o'r lle rydym arni nawr tuag at system ECEC gyffredinol, bydd angen cymryd nifer o gamau, yn ogystal â mwy o gyllid tuag at gostau penodol gofal plant y mae teuluoedd yn eu hwynebu. Yn benodol, mae angen inni wneud y canlynol:

- Datblygu a meithrin y sector i sicrhau digon o leoedd ECEC;
- Buddsoddi yng ngweithlu ECEC fel bod niferoedd staff yn ddigonol a bod staff yn ymarferwyr hyderus a gwybodus;
- Gwella ansawdd y ddarpariaeth drwy sicrhau bod yr addysgeg sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei lledaenu i bob rhan o'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar.

23. Rhaid inni fuddsoddi mewn lleoedd ECEC ychwanegol. Hyd yn oed os nad yw pob plentyn am fanteisio ar ei hawl i hyn, byddai'n dal i fod angen mwy o leoedd arnom pe baem yn cynyddu lefelau cyffredinol y ddarpariaeth. Byddai angen inni hefyd edrych ar leoliadau'r ddarpariaeth honno, gan sicrhau ei bod wedi'i lledaenu'n decach ledled Cymru. Rydym wedi buddsoddi £81m o gyllid cyfalaf mewn safleoedd gofal plant yn ystod y cyfnod 2019-2023, a thros £39m yn cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd; mae angen inni adeiladu ar hyn. Mae ein rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif hefyd yn ymdrechu i gefnogi'r gwaith o gydleoli gwasanaethau fel ffordd o sicrhau mwy o werth am arian o fuddsoddiadau, a gwell cyfleoedd a phrofiadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Ochr yn ochr â buddsoddi mewn lleoedd, mae angen inni hefyd gynyddu a chefnogi'r gweithlu.

24. Mae'r gweithlu gofal plant, gwaith chwarae a blynyddoedd cynnar yn cyflogi tua 17-18,000 o bobl. Mae ffigurau o 2015-16 yn awgrymu bod y sector yn cyfrannu hyd at £1.2bn i economi Cymru. Byddai ariannu mwy o leoedd yn golygu bod angen mwy o staff. Rydym wedi buddsoddi £9.2m mewn hyfforddiant a gwella sgiliau yn ystod 2016-2023 o dan y rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Wrth symud ymlaen mae angen inni barhau i gefnogi'r gweithlu presennol gan gynnal a gwella eu sgiliau, gweithio ar draws ein holl raglenni hyfforddiant ac addysg, a denu mwy o bobl i'r gweithlu. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn dechrau ymgyrch recriwtio cyn bo hir, a byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r gwaith a nodir yn ein cynllun ar gyfer gweithlu'r gofal plant, gwaith chwarae a'r blynyddoedd cynnar, a gyhoeddwyd yn 2017.

Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

25. Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yw un o'r rhaglenni sy'n cyfrannu at helpu mwy o rieni i gael gwaith, ac yn darparu cymorth pwrpasol, gan gynnwys cymorth ariannol tuag at gostau gofal plant, i rieni (gan gynnwys rhieni sengl) sy'n dymuno manteisio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, ond y mae gofal plant yn rhwystr iddynt rhag gwneud hynny.

26. Ers argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, "Wrth eich gwaith: rhianta a chyflogaeth yng Nghymru", ymdrechwyd i godi proffil PaCE yn genedlaethol. Bellach mae gan PaCE dudalen ddynodedig ar wefan Llywodraeth Cymru, ac rydym wedi gwella ein llenyddiaeth hyrwyddo i'w gwneud yn haws i rieni ddeall yr hyn y mae PaCE yn

ei gynnig. Mae PACE hefyd yn cael ei hyrwyddo ar sianeli cyfryngau cymdeithasol trydydd partion perthnasol fel Dewis Cymru a'r Cynnig Gofal Plant. Mae gan Gynghorwyr PACE hefyd well perthynas â staff y Cynnig Gofal Plant ym mhob ardal, a gwneir ymdrechion parhaus i alinio PaCE â'r strwythur cymorth ehangach i deuluoedd ledled Cymru er mwyn darparu gwasanaeth integredig a di-dor i rieni.

27. Ers ei sefydlu yn 2015, mae PaCE wedi cefnogi 6,541 o unigolion (6,189 o fenywod a 352 o ddynion), a dechreuodd 2,881 (44 y cant) (2,722 o fenywod a 163 o ddynion) o'r rheini ar gyflogaeth o fwy nag 16 awr yr wythnos. Mae hyn yn llawer mwy na'r targed o 20 y cant. Parhaodd PaCE i weithredu yn ystod y pandemig, gan gydnabod bod llawer o rieni mewn rolau gweithwyr allweddol a bod angen cymorth arnynt i ddod o hyd i a/neu dalu am ofal plant. Ers dechrau'r pandemig mae PaCE wedi cefnogi 1318 o bobl.

28. Roedd y [gwerthusiad](#) diweddaraf o'r Rhaglen PaCE, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020, yn canolbwyntio ar brofiadau unigolion sydd wedi cael eu cefnogi ganddi. Roedd y gwerthusiad yn cydnabod, er enghraifft:

- mai menywod oedd y mwyafrif llethol o'r rheini a gysylltodd â PaCE;
- bod traean ohonynt (menywod yn bennaf) wedi symud ymlaen i gyflogaeth.

29. Mae gwerthusiad terfynol ar y gweill a fydd yn canolbwyntio ar werth am arian y rhaglen PaCE, a bydd hwn yn cael ei gyhoeddi yn y Flwyddyn Newydd. Ariennir PaCE gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac mae'r arian a ddarparwyd hyd yma i dalu am weithgarwch tan Fehefin 2022. Fodd bynnag, mae yna gytundeb "mewn egwyddor" gan WEFO i ymestyn y ddarpariaeth tan Fehefin 2023, a daw'r rhaglen i ben ym mis Hydref 2023. Mae sgysiau gyda chydweithwyr eraill yn Llywodraeth Cymru yn parhau ynghylch pa ddarpariaeth gofal plant a allai fod ar gael i gefnogi unrhyw gynnig gan Lywodraeth Cymru i feithrin cyflogadwyedd pan ddaw arian Ewropeaidd i ben.

Y Camau Nesaf

30. Er mwyn ein helpu i ddeall beth arall y gallai fod ei angen, mae sawl darn o waith ar y gweill sy'n rhoi sylw i'r galw, y nifer sy'n manteisio a chymorth i'r sector sydd wedi'i dargedu:

- Cwblhaodd 90 y cant o safleoedd cofrestredig Arolwg Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru yn ddiweddar. Mae'r data hwn, sy'n rhoi cipolwg cynhwysfawr o'r sector, yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd;
- Mae awdurdodau lleol yn cynnal eu Hasesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant (a fydd yn cael eu cyhoeddi yn 2022) a buom yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar arolwg cenedlaethol rhieni i'w hysbysu;
- Cyn bo hir, byddwn yn cynnal gwerthusiad o ddau gynllun cymorth sy'n cael eu rhedeg gan Busnes Cymru, sy'n darparu cymorthdaliadau cyflog i gefnogi safleoedd sy'n ceisio ehangu, a chostau cychwyn ar gyfer gwarchodwyr plant newydd.

31. Defnyddir yr wybodaeth hon, ynghyd â ffynonellau eraill gan gynnwys ymchwil Sgyrsiau Cenedlaethol Gofal Cymdeithasol Cymru¹⁵, ac arolygon a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Cymru a phartneriaid Cwlwm i lunio polisiau a rhaglenni a fydd yn cefnogi'r sector gofal plant i ehangu a ffynnu. Caiff y rhain eu llunio yng nghyd-destun ein Rhaglen Lywodraethu bresennol sy'n cynnwys dau ymrwymiad penodol yn y maes hwn:

- a. Cyllido gofal plant ar gyfer mwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant;
- b. Parhau i gefnogi prif raglenni Dechrau'n Deg.

32. Bydd hefyd yn bwysig edrych ar ddsbarthiad gofal plant yng nghyd-destun ein huchelgeisiau ar gyfer Cymru gryfach, decach a gwyrddach. Mae rhieni sy'n gweithio o gartref neu'n agosach at adref yn debygol o fod eisiau mwy o ofal plant yn lleol. Gallai diwygiadau posibl i batrwm y diwrnod ysgol a'r flwyddyn ysgol hefyd sbarduno newidiadau o fewn y sector gofal plant a chwarae, ac mae bwrw ymlaen â'n polisi ar Ysgolion Cymunedol yn creu mwy o gyfleoedd ar gyfer cyfleusterau amlddefnydd sydd ar gael i bobl leol drwy gydol y flwyddyn.

Atodiad

Cymorth ariannol ar gyfer y sector gofal plant a chwarae Ebrill 2020 – Tachwedd 2021:

Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r sector gofal plant yng ngoleuni'r pandemig

Y Cynnig Gofal Plant a'r Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws

Er gorfod atal y Cynnig Gofal Plant dros dro i newydd-ddyfodiaid rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2020, parhaodd Llywodraeth Cymru i ariannu lleoedd y Cynnig a oedd eisoes wedi'u harchebu am dri mis er mwyn helpu i gynnal darparwyr gofal plant ar gost o £11m.

Fel rhan o ymateb uniongyrchol Llywodraeth Cymru i'r pandemig, ailflaenoriaethwyd cyllid y Cynnig i ariannu gofal plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed o 1 Ebrill 2020 tan 31 Awst 2020. Darparwyd £16.7m drwy'r [Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws](#), gan gefnogi gweithwyr hanfodol a phlant agored i

¹⁵ Sgyrsiau Cenedlaethol gyda'r Sector Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru. Gofal Cymdeithasol Cymru. 2021

niwed. Dros y cyfnod pan oedd ar gael, darparodd y Cynllun Cymorth ofal i dros 900 o blant agored i niwed a 9,600 o blant gweithwyr hanfodol (yn seiliedig ar amcangyfrifon diweddaraf awdurdodau lleol).

Sicrhawyd £20m ychwanegol gennym er mwyn [ailagor y Cynnig Gofal Plant](#) ar gyfer ceisiadau yn ystod haf 2020, gan sicrhau bod cyn lleied o rieni â phosibl yn colli cyfleoedd gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth. Drwy gydol cyfnodau dilynol o gyfyngiadau a chyfraddau heintio Covid-19 uchel, galluogwyd darparwyr i barhau i hawlio cyllid y Cynnig i dalu am gyfnodau byr a hirach o darfu yn sgil absenoldebau staff a phlant o ganlyniad i Covid-19, gan gefnogi cynaliadwyedd y sector.

Grant Darparwyr Gofal Plant

Cyflwynwyd y [Grant Darparwyr Gofal Plant](#) fel pecyn cymorth penodol i gynnig achubiaeth ariannol i ddarparwyr gofal plant nad oeddent yn gallu manteisio ar becynnau cymorth eraill gan y Llywodraeth, ac i helpu i sicrhau bod lleoedd gofal plant ffurfiol yn parhau i fod ar gael i rieni. O'r 1,000 o safleoedd a oedd yn gymwys ar gyfer y Grant, derbyniwyd ceisiadau llwyddiannus gan 162, a gwariwyd £0.5m (£3,000 y safle ar gyfartaledd) o gyllideb o £4.5m. O'r cychwyn cyntaf buom yn gweithio gyda rhanddeiliaid i godi ymwybyddiaeth o'r Grant, a defnyddio ystod o sianeli cyfathrebu i hysbysebu a darparu gwybodaeth amdano. Roedd nifer o broblemau yn ymwneud â'r broses ymgeisio ac amodau'r grant y gwnaeth llawer o ddarparwyr gofal plant ei chael yn anodd eu goresgyn:

- Roedd cymhlethdod y broses ymgeisio yn anghymesur â'r swm arian posibl a gâi ei ddyrannu, ac felly ystyrid nad oedd yn werth y drafferth;
- Anhawster darparu prawf digonol o elw/colled yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin 2020;
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad oedd y colledion yn fawr yn ystod y cyfnod hwnnw oherwydd bod cyllid y Cynnig yn dal i gael ei dalu, a bod y becynnau cymorth eraill yn ddefnyddiol i lawer;
- Y risg y byddai'n rhaid ad-dalu'r cyllid a ddyfarnwyd pe bai safleoedd yn gorfod cau oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth;
- Atal y grant am fod darparwr wedi hawlio cymorth y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, er mai taliad i ategu incwm personol oedd hwn, nid i gefnogi'r busnes gofal plant;
- Amharodrwydd i ffurfio corff cyfreithlon;
- Nid oedd rhai safleoedd yn gallu ailagor yn eu lleoliad AGC cofrestredig, a bu'n rhaid iddynt symud dros dro i leoliad anghofrestredig (neu cawsant gyngor i ddadgofrestru), gan eu gwneud yn anghymwys.

Cyllid cynaliadwyedd drwy awdurdodau lleol

Yn y flwyddyn ariannol 2020-21, dyrannwyd £5.3m ychwanegol i awdurdodau lleol (yn ogystal â'r cyllid blynyddol o £2.3m) drwy elfen Gofal Plant a Chwarae'r Grant Plant a Chymunedau i helpu gwasanaethau gofal plant yn eu hardaloedd, gan eu galluogi i gefnogi safleoedd a darparwyr a oedd yn wynebu costau ychwanegol neu golli incwm o ganlyniad i'r pandemig. Mae £3.5m arall wedi'i ddarparu yn y flwyddyn ariannol 2021-2022 i gefnogi grantiau cynaliadwyedd bach pellach ar gyfer y sector.

Cyllid Cyfalaf

Yn 2020-21, darparwyd £5m o gyllid cyfalaf (£3m ar gyfer Chwarae a £2m drwy gynllun grant cyfalaf bach y Cynnig) i helpu safleoedd gofal plant i wneud eu lleoliad yn fwy diogel yn ystod y pandemig. Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd £11.6m arall mewn cyllid cyfalaf i gynyddu'r capasiti yn safleoedd gofal plant y Cynnig a Dechrau'n Deg yng Nghymru, a £5m o gyllid cyfalaf i helpu awdurdodau lleol i ymateb i'r blaenoriaethau yn eu cynlluniau gweithredu digonolrwydd chwarae.

Rhyddhad Ardrethi Busnesau

Ym mis Medi 2018, cafodd cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach parhaol Llywodraeth Cymru ei wella i ddarparu **rhyddhad ardrethi o 100 y cant** i bob eiddo gofal plant cofrestredig am gyfnod o dair blynedd o fis Ebrill 2019. Cytunwyd ar hyn i gydnabod rôl economaidd-allweddol y sector i alluogi rhieni a gofalmwr i weithio ac aros mewn gwaith.

Ym mis Gorffennaf 2021, cytunodd y Gweinidogion y dylid ymestyn y rhyddhad ardrethi o 100 y cant am 3 blynedd arall oherwydd effaith y pandemig. Bydd ymestyn y rhyddhad ardrethi tan 31 Mawrth 2025 yn darparu £9.7m o gymorth ychwanegol ar gyfer safleoedd gofal plant cofrestredig. Bydd hyn yn helpu'r rhai sy'n wynebu anawsterau ariannol o ganlyniad i'r pandemig ac yn sicrhau lefel y ddarpariaeth y mae ei hangen ar blant a rhieni ac y maen nhw'n dibynnu arni.

Grantiau Busnes Cymru

Ym mis Medi 2019, lanswyd dau grant cymorth busnes. Cyflwynwyd y rhain gan Busnes Cymru a'u nod oedd cefnogi busnesau newydd a darparwyr gofal plant a oedd eisoes yn bodoli i ehangu. Oherwydd y pandemig, estynnwyd y dyddiad cau ar gyfer hawlio'r cyllid i 30 Medi 2021 i roi amser i'r rhai a oedd yn derbyn y grant i gyflwyno'r dystiolaeth angenrheidiol.

Comisiynwyd gwerthusiad o'r ddau grant hyn. Dylai hyn ein helpu i ddeall effaith y grantiau a phenderfynu ai dyma'r ffordd orau o gefnogi'r sector.

Cefnogi adferiad drwy Haf o Hwyl a Gaeaf Llawn Lles

Lanswyd **Haf o Hwyl**, a oedd yn werth £5m, ym Mehefin 2021 i roi cyfle i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 25 oed chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol i helpu i ailadeiladu eu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Buom yn gweithio gydag Arweinydd Chwarae Awdurdodau Lleol i gefnogi ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd o 1 Gorffennaf tan 30 Medi, wedi'u teilwra i anghenion y bobl a'r cymunedau yn eu hardal. Dywedodd llawer fod gormod wedi tanysgrifio i'r gweithgareddau, a bod galw am y ddarpariaeth ar draws pob oedran.

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddwyd £20m arall ar gyfer **Gaeaf Llawn Lles** a fydd yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy:

- ddarparu'r lle a'r amser i chwarae, gan eu cefnogi i gael hwyl a mynegi eu hunain drwy chwarae;
- mentrau rhyngweithiol, creadigol a chwarae yn y gymuned ar gyfer pob oedran;

- cyfleoedd i ddatblygu a meithrin eu sgiliau cymdeithasol drwy ymgysylltu â ffrindiau a chyfoedion;
- creu lle a chyfleoedd i chwarae'n rhydd ac ar gyfer gweithgarwch corfforol.

CWLWM (consortium o gyrff ambarél sy'n cynrychioli darparwyr gofal plant yng Nghymru)

Ers dechrau'r pandemig, mae consortium CWLWM wedi derbyn £2.2m yn ychwanegol i gefnogi darparwyr ar draws ystod eang o faterion sy'n codi yn sgil Covid-19 ac i helpu gwasanaethau i addasu mewn ymateb i'r effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar y sector.

Cyfleoedd Chwarae

Ers dechrau'r pandemig, mae Chwarae Cymru, yr elusen annibynnol a ariennir gan Lywodraeth Cymru, wedi derbyn £400,000 arall i ymgymryd â gwaith penodol i gefnogi darparwyr ar draws ystod eang o faterion sy'n codi yn sgil Covid-19, ac i hyrwyddo pwysigrwydd a gwerth chwarae ymhlith rhieni a rhanddeiliaid er mwyn cefnogi lles eu plant yn dilyn cyfyngiadau Covid-19.

Ym mis Gorffennaf 2020, dyfarnwyd £1.6m i Awdurdodau Lleol drwy'r Gronfa Galedi Frys i Awdurdodau Lleol i ddarparu gwell cyfleoedd chwarae i blant mewn cymunedau sy'n agored i niwed, ac i wireddu'r manteision a ddaw yn sgil hyn o ran datblygiad plant a lefelau gweithgarwch, ynghyd â £500,000 arall ym mis Hydref 2020 i gefnogi cyfleoedd chwarae i blant, gan helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu Dyletswydd Digonolrwydd Chwarae.

Cyllid Gofal Cymdeithasol Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru, a nhw sy'n gyfrifol am gynnal a goruchwylio gofynion hyfforddi, cymwysterau a datblygu'r sector. Fel partner strategol i Lywodraeth Cymru, maent wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi'r sector yn ystod y pandemig.

Cyflwynwyd ymgyrch *Gofalwn* Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2020-21 i gefnogi'r gwaith o recriwtio a chadw staff yn y sector gofal plant yn ogystal â chefnogi morâl a chydabod y rôl hanfodol a chwaraeir gan y gweithlu. Un o swyddogaethau cyson allweddol Gofal Cymdeithasol Cymru yw darparu adnoddau a chanllawiau sy'n benodol i'r sector, llawer ohonynt mewn ymateb i'r materion sy'n cael eu codi gan y sector a'r heriau a wynebir oherwydd Covid-19.

